



NUSS
National Union of
School Students



**Pecyn Gwybodaeth
Cynrychiolwyr Undeb
Cenedlaethol Myfyrwyr
Ysgol (UCMY)**

Gwybodaeth i ddisgyblion

Ydych chi eisiau cynrychioli eich ysgol ar lefel genedlaethol ac ymgyrchu dros newidiadau sy'n bwysig i chi a disgyblion eraill?

Yna darllenwch ymlaen i ddarganfod sut allwch chi ddod yn Gynrychiolydd UCMY.

UCMY yw'r undeb cenedlaethol sy'n cynrychioli disgyblion mewn ysgolion uwchradd a chweched dosbarth yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Fel aelod o UCMY, byddwn yn gofyn i'ch ysgol ddewis cynrychiolwyr. Bydd cynrychiolwyr UCMY yn gyfrifol am:

- Helpu i benderfynu a rhedeg ymgyrchoedd UCMY
- Darganfod beth mae disgyblion yn eich ysgol yn ei feddwl
- Mynychu ein digwyddiadau ar-lein fel cynrychiolydd eich ysgol.

Mae rôl Cynrychiolydd UCMY yn **bwysig er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion yn eich ysgol lais yn yr hyn y mae UCMY yn ymgyrchu arno**. Mae nifer y cynrychiolwyr UCMY sydd gan eich ysgol yn dibynnu ar faint o ddisgyblion sy'n mynd i'ch ysgol. Felly bydd gan ysgolion bach lai o gynrychiolwyr UCMY.

Beth mae bod yn gynrychiolydd yn ei olygu?

Fel cynrychiolydd UCMY, **chi fydd y cyswllt rhwng disgyblion yn eich ysgol ac UCMY.**

Byddwn yn rhoi **un dasg bob tymor** i chi, er mwyn helpu i ddarganfod beth mae disgyblion yn eich ysgol yn ei feddwl. Bydd y rhain yn cynnwys:

- **Casglu ymatebion i'n harolwg ar-lein Beth Mae Myfyrwyr yn ei Feddwl.** Gallwch wneud hyn trwy godi poster, siarad â'ch cyddisgyblion, ac unrhyw syniadau eraill sydd gennych chi!
- **Cyflwyno blaenoriaethau eich ysgol** i UCMY i helpu â phenderfynu ar ein hymgyrchoedd cenedlaethol
- **Cymryd rhan yng ngweithgareddau ymgyrchu UCMY** - ac annog myfyrwyr yn eich ysgol i wneud yr un peth.
- **Mynychu ein digwyddiadau ar-lein**

Byddwch yn cael cefnogaeth ac arweiniad trwy gydol y flwyddyn, gan UCMY a gan eich ysgol, i'ch helpu.

Pa sgiliau a nodweddion sydd eu hangen arnaf?

Does dim angen i chi fod ag unrhyw brofiad blaenorol i fod yn gynrychiolydd UCMY. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw brwdfrydedd dros wneud pethau'n well i ddisgyblion ysgol!

Bydd angen i chi hefyd fod â **diddordeb mewn datblygu'r sgiliau canlynol:**

Darganfod beth mae disgyblion yn eich ysgol yn ei feddwl

Siarad ar ran myfyrwyr yn eich ysgol

Gweithio'n dda gyda disgyblion ysgol eraill ar draws y wlad

Ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr ysgol

Bydd UCMY yn rhoi hyfforddiant i chi trwy gydol y flwyddyn i'ch helpu i deimlo'n hyderus i wneud y rôl.

Fel cynrychiolydd UCMY, bydd gennych chi hefyd y **cyfle i gynnig eich hun ar gyfer rôl Arweinyddiaeth Genedlaethol UCMY**. Mae hyn yn golygu y gallech chi ddod yn rhan o'r tîm sy'n cynrychioli pob myfyriwr ar draws y wlad!

Mae gen i ddiddordeb! Beth sydd nesaf?

Siaradwch â'r aelod staff sy'n brif gyswllt ar gyfer UCMY yn eich ysgol. Byddan nhw'n rhoi gwybodaeth i chi am y camau nesaf a phryd mae dewis cynrychiolwyr UCMY yn digwydd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am fod yn gynrychiolydd UCMY, mae croeso i chi gysylltu â ni ar hello@nuss.org.uk.